

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 3ydd o HYDREF 2016 YN FESTRI CAPEL SALEM, PEDAIR HEOL AM 7.00.**

**Presennol:** Alan Lewis (yn y gadair), Geraint Rosser, Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Geoff Hewitt, Meic Bowen a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Linda Williams, Aled Williams, Carrie Rees, Wendy Evans, Ellis Jenkins a Richard Thomas

**Materion Personol**

**1540** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1541 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 05/09/2016 fel rhai cywir.

**1542 Materion yn codi.**

Tud 3. Cofnod Rhif 1533 - Offer Chwarae Parc Carwe - Mae'r pris wedi newid i gynnwys matiau o dan y siglen. Y pris newydd fydd £3501.75.

*Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1543 Cyflwyniad Shared Access**

Derbyniwyd adroddiad y Cyfarfod Cynllunio arbennig a gynhaliwyd ar 28/09/16. Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn derbyn cais Shared Access i godi Twr Ffon Symudol ar un o byst Cae Rygbi Pontiets.

*Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1544** Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

*Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1545** Pwyllgor Neuadd Pontiets - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

*Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1546** Bethel Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

*Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwyr Geoff Hewitt, Heddwyn Jones a Meic Bowen yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**1547** Nasareth Pontiets – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

*Geoff, Heddwyn a Meic yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

- 1548** Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300  
*Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod..*
- 1549** Eisteddfod Llandyfaelog – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1550** Carmarthen & District Youth Opera – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1551** Meinciau Sports Short Mat Bowls– Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1552** Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1553** Neuadd Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd tuag at y Carped Newydd.
- 1554** Llanelli & District Fundraising Group – Guide Dogs Cymru - Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1555** Neuadd Pontiets - Llythyr yn diolch am gyfraniad tuag at Rent y Swyddfa..

Gohebiaeth gyffredinol :-

- 1556** Cyngor Sir Gar – Addurniadau Tymhorol – Nodwyd y llythyr.
- 1557** Cyngor Sir Gar - Enwebu Llywodraethwr i Ffederasiwn Ysgolion Carwe, Gwynfryn a Phont-henri - Enwebwyd y Cynghorydd Geraint Rosser.
- 1558** Comisiwn Ffiniau i Gymru - Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Cynigion Cychwynnol - Nodwyd y llythyr.

### **Ceisiadau Cynllunio**

#### **1559** Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/33265 - Cwar Torcoed/Torcoed fawr a Chrwbina - Cafwyd trafodaeth lwyr ar y mater a phenderfynwyd nad yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais gan y credant y byddau'r amodau newydd yn fwy cryf a gweithredol na'r amodau presennol.

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

- 1560** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Medi 2016. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

- 1561** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Medi)
  - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi)
  - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £100.00 (Mis Medi)
  - ch)** HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Medi)
  - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Medi)
  - dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £52.21 (Mis Medi)
  - e)** Stampiau - £13.20
  - f)** Justin Gravell – Gwaith yn y Plwyf - £1200.00

## **Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2015-2016**

**1562** Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Darllenwyd Llythyr oddiwrth Cwmni Grant Thornton yn amgáu Tystysgrif Archwilio ac Adroddiad Diamod i'r Cyngor. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

### **Toiledau'r Meinciau**

**1563** Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc bod Mr Huw Nicholls yn barod i ymgymryd â'r gwaith o fod yn ofalwr . Penderfynwyd gwneud y trefniadau angenrheidiol gyda'r Cyngor Sir.

### **Cyfansoddiad y Cyngor**

**1564** Darllenwyd llythyr oddiwrth y Cyngor Sir parthed adolygiad o'r trefniadau etholiadol, gyda'r nod o ostwng nifer y Cynghorwyr Cymuned ar gyfer Wardiau Cymunedol Pontiets a Llangyndeyrn fel a ganlyn :-

- a) Ward Pontiets – 6 Cynghorwr
- b) Ward Llangyndeyrn – 3 Cynghorwr

Penderfynwyd ein bod yn cefnogi'r adolygiad.

### **Rheilffordd Pontiets**

**1565** Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd ein bod yn derbyn amcan bris oddiwrth D.B.Engineering Services trwy law Ian Ashton o Reilffordd Cwm Gwendraeth am £5900.00 i adnewyddu Gatiau Rheilffordd Pontiets.

**Cyfarfod nesaf:- 7 o Dachwedd 2016 yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch. (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**